OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1505 (Cy.146)

PRIFFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (Yr A487) (Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog a Thynnu Statws Cefnffordd) 2009

Gwnaed - - - -	*17 Mehefin 2009*
Yn dod i rym - -	*25 Mehefin 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10, 12, 106 a 254 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**), a phob pŵer galluogi arall (**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Bydd y priffyrdd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu hadeiladu ar hyd y llwybrau a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn dod yn gefnffyrdd ar y dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym.

2. Dangosir llinellau canol y cefnffyrdd newydd â llinellau duon trymion a dangosir y cynigion cysylltiedig ar gyfer ffyrdd ymyl â llinellau gwynion wedi'u torri ar y plan a adneuwyd.

3. Bydd y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adneuwyd, yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffyrdd dosbarthiadol ar y dyddiad pan fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Gwynedd fod y cefnffyrdd newydd ar agor ar gyfer traffig trwodd.

4. Mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi i godi'r bont a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn fel rhan o'r brif gefnffordd newydd.

5. Yn y Gorchymyn hwn:—

(1) Caiff pob mesur o bellter ei fesur ar hyd llwybry briffordd berthnasol;

(i) ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn y Rhif HA 10/2 WAG 1 ac sydd wedi'i farcio "Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog a Thynnu Statws Cefnffordd) 2009" , wedi'i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac wedi'i adneuo yn yr Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

(ii) ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487);

(**1**) 1980 p.66.
(**2**) Yn rhinwedd O.S . 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(iii) ystyr "y cefnffyrdd newydd" ("*the new trunk roads*") yw'r cefnffyrdd a grybwyllir yn erthygl 1 y Gorchymyn hwn ac ystyr "cefnffordd newydd" yw un o'r priffyrdd hynny;

6. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Mehefin 2009 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog a Thynnu Statws Cefnffordd) 2009'

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

17 Mehefin 2009 *Jeff Collins*

J COLLINS
Dirprwy, Gyfarwyddwr Cynllunio a
Llywodraeth Cynulliad Cymru Llywodraethu Trafnidiaeth